# Ymarfer ac Adolygu i Rieni

# **Rhesymu - Mathemateg**

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Gwybodaeth a Chanllawiau i Rieni | 4 - 6 |
| Asesiad Cychwynnol | 7 - 17 |
| Gwerth Lle | 18 |
| Degau ac Unedau | 19 - 21 |
| Geiriau a Ffigurau | 22 - 23 |
| Trefnu Rhifau a Darllen Graddfeydd | 24 - 27 |
| Mwy Na a Llai Na | 28 - 31 |
| Cyfrifiad | 32 |
| Adio a Thynnu | 33 - 38 |
| Adio a Thynnu Degau a Rhifau 2-Ddigid | 39 - 43 |
| Arian | 44 |
| Gwerth Darnau Arian | 45 |
| Adio Darnau Arian | 46 - 48 |
| Rhoi Newid | 49 - 50 |
| Lluosi a Rhannu | 51 - 56 |
| Ffracsiynau | 57 |
| Ffracsiynau o Siapiau | 58 - 59 |
| Ffracsiynau o Symiau/Niferoedd | 60 - 63 |
| Problemau Geiriol Ffracsiynau | 64 - 65 |
| Geometreg | 66 |
| Priodweddau Siapiau 2D | 67 - 69 |
| Priodweddau Siapiau 3D | 70 - 72 |
| Lleoliad a Chyfeiriad | 73 - 76 |
| Patrymau a Dilyniannau | 77 - 79 |

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Ystadegau | 80 |
| Siartiau Rhifo (Tali) | 81 |
| Pictogramau | 82 |
| Graff Bloc | 83 |
| Mesur | 84 |
| Unedau Mesur | 85 - 86 |
| Mesur Hyd | 87 |
| Mesur Cynhwysedd | 88 |
| Mesur Pwysau | 89 |
| Mesur Tymheredd | 90 |
| Amser | 91 - 92 |
| Siart Gwobrwyo | 93 |

# Gwybodaeth a Chanllawiau i Rieni

Croeso i Ganllaw Ymarfer ac Adolygu Twinkl ar gyfer elfen 'Rhesymu' y fframwaith rhifedd. Bwriad y llyfryn yma yw eich helpu i gefnogi eich plentyn wrth iddyn nhw ddysgu, ymarfer ac atgyfnerthu eu sgiliau rhesymu. Dydy'r llyfryn hyn ddim yn ganllaw cynhwysfawr ar gyfer pob disgrifiad dysgu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd na disgwyliadau cyrhaeddiad ddiwedd blwyddyn 2.

## Beth Yw Rhesymu?

Mae rhesymu mathemategol yn gofyn i blant gymhwyso eu dysgu a'u dealltwriaeth flaenorol o bob agwedd fathemategol maent wedi'i ddysgu hyd yn hyn. Er bod yna bapur gweithdrefnol mathemateg ar wahân (elfennau o fathemateg sy'n canolbwyntio ar rifau a chyfrifo), bydd angen i blant ddefnyddio eu sgiliau rhifyddeg weithdrefnol yn y papur rhesymu hefyd.
Yng Nghamau Cynnydd 1 a 2 (derbyn i flwyddyn 3), bydd plant yn dysgu'r canlynol:

### Gwerth Lle

- Cyfrif ymlaen ac yn ôl fesul 1, 2, 5 a 10 hyd at ac oddi wrth 100
- Defnyddio llinell rif i drefnu rhifau a helpu cyfrifo
- Deall gwerth digidau mewn rhif 2-ddigid
- Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 1000
- Cymharu a threfnu rhifau, e.e. gwybod bod 56 yn llai na 65

### Cyfrifiad

- Darllen a deall brawddegau rhif gan ddefnyddio'r arwyddion adio (+), tynnu (-), lluosi (x), rhannu (÷) ac yn hafal (=).
- Defnyddio 'bondiau rhif' ar gyfer rhifau hyd at 20 (h.y. gwybod y parau o rifau sy'n gwneud 5, 10 neu 20 ar y cof i gynorthwyo mathemateg pen) a defnyddio'r wybodaeth hyn i gwblhau cyfrifiadau hyd at 100, e.e. os ydw i'n gwybod bod

  6 + 4 = 10, rydw i hefyd yn gwybod bod 60 + 40 = 100
- Tablau lluosi a ffeithiau rhannu cysylltiedig ar gyfer tabl 2, 3, 4, 5 a 10
- Adio a thynnu rhifau un-digid a dau-ddigid
- Adio tri rhif
- Deall bod adio a lluosi yn gymudol (medru ei wneud mewn unrhyw drefn) ond bod hyn ddim yn wir am dynnu a rhannu
- Deall y berthynas rhwng adio a thynnu, a rhwng lluosi a rhannu er mwyn medru datrys problemau rhifau coll megis 9 + ? = 14 ac i wirio cyfrifiadau eu hun
- Datrys problemau gan ddefnyddio adio, tynnu, lluosi a rhannu

### Ffracsiynau

- Adnabod, darganfod, enwi ac ysgrifennu ffracsiynau: $\frac{1}{2}$, $\frac{1}{3}$, $\frac{1}{4}$, $\frac{2}{4}$ a $\frac{3}{4}$ wrth ymdrin â hyd, siâp, set o wrthrychau neu niferoedd
- Ysgrifennu ffracsiynau syml, e.e. $\frac{1}{2}$ of 6 = 3
- Deall bod $\frac{1}{2}$ a $\frac{2}{4}$ yr un peth

## Mesur

- Dewis a defnyddio unedau mesur safonol addas er mwyn amcangyfrif a mesur hyd/uchder i unrhyw gyfeiriad (m/cm); màs (kg/g), tymheredd ([illegible]) a chynhwysedd (litr/ml) i'r uned addas agosaf, gan ddefnyddio pren mesur, clorian, thermomedr a chynwysyddion mesur
- Cymharu a threfnu hyd, màs, cyfaint/cynhwysedd a chofnodi'r canlyniadau gan ddefnyddio >,< ac =
- Adnabod a defnyddio symbolau ar gyfer punnoedd (£) a cheiniogau (c); cyfuno symiau i wneud gwerth penodol
- Darganfod gwahanol gyfuniadau o ddarnau arian sy'n cyfateb ag amrywiaeth o symiau arian hafal
- Datrys problemau syml mewn cyd-destyn ymarferol, sy'n cynnwys adio a thynnu arian o'r un gwerth, gan gynnwys rhoi newid
- Cymharu a threfnu cyfnodau amser
- Dweud ac ysgrifennu'r amser i'r pum munud agosaf, gan gynnwys chwarter wedi/chwarter i a llunio'r bysedd ar wyneb cloc i ddangos yr amserau hyn
- Gwybod sawl munud sydd mewn awr a'r nifer o oriau mewn dydd

## Priodweddau Siâp

- Adnabod a disgrifio priodweddau siapiau 2D, gan gynnwys nifer yr ochrau a llinellau cymesuredd mewn llinell fertigol
- Adnabod a disgrifio priodweddau siapiau 3D, gan gynnwys nifer yr ymylon, fertigau ac wynebau
- Adnabod siapiau 2D ar wynebau siapiau 3D
- Cymharu a didoli siapiau 2D a 3D cyffredin a gwrthrychau pob dydd

## Lleoliad a Chyfeiriad

- Trefnu a gosod cyfuniadau o wrthrychau mathemategol i batrymau a dilyniannau
- Defnyddio geirfa fathemategol i ddisgrifio lleoliad, cyfeiriad a symudiad, gan gynnwys symudiad mewn llinell syth a gwahaniaethu rhwng cylchdro yn nhermau onglau sgwâr ar gyfer chwarter tro, hanner tro a tri chwarter tro

## Ystadegau

- Dehongli a llunio pictogramau syml, siartiau rhifo (tali), diagramau bloc a thablau
- Gofyn ac ateb cwestiynau syml drwy gyfri'r nifer o wrthrychau ym mhob categori a didoli'r categorïau fesul nifer
- Gofyn ac ateb cwestiynau am gyfrifo cyfanswm a chymharu data pendant

## Sut i Ddefnyddio'r Llyfryn

Chi sydd i benderfynu sut i ddefnyddio'r llyfryn hwn ond ni ddylai'ch plentyn geisio gorffen y cyfan mewn un sesiwn. Bydd yna feysydd y bydd eich plentyn yn eu deall yn dda ac eraill lle bydd angen ychydig mwy o ymarfer arnynt. Gallwch chi ofyn i athro dosbarth eich plentyn pa feysydd maent yn awgrymu y dylech ganolbwyntio arnynt a gallwch chi ofyn i'ch plentyn i gyflawni'r cwis cychwynnol ar dudalen 7 hefyd, a fydd yn rhoi syniad o'r meysydd lle maent yn wannach er mwyn i chi fedru canolbwyntio arnynt. Mae yna gyfeirnodau tudalen cyferbyn â phob cwestiwn yn adran atebion y cwis er mwyn i chi fedru dod o hyd i'r tudalennau ymarfer i weithio arnynt.

Mae plant yn dueddol o gael eu haddysgu i gyflawni cyfrifiadau a datrys problemau mathemategol mewn nifer o wahanol ffyrdd. Yn ystod y cyfnod yma, mae nifer o blant yn defnyddio strategaethau pen, tra bod eraill yn parhau i ddefnyddio dulliau concrid - h.y. defnyddio gwrthrychau i'w helpu i greu marciau/nodiadau gyda phensil a phapur. Cefnogwch eich plentyn i ddefnyddio pa bynnag ddull sydd mwyaf defnyddiol iddynt a darparwch eitemau iddynt eu defnyddio - mae darnau o basta sych, gleiniau, botymau neu briciau adeiladu i gyd yn addas. Os oes angen i'ch plentyn ysgrifennu nodiadau yn y gwagle o dan bob cwestiwn, anogwch nhw i wneud hyn os ydyw yn debygol i'w helpu i ddod o hyd i'r ateb.

## Cefnogi Dysgu a Lles Eich Plentyn

Yn anffodus, gall plant deimlo'n bryderus am brofion yn yr ysgol. Ceisiwch gwblhau'r gweithgareddau hyn mewn modd hwylus, hamddenol gan gwblhau ychydig o dudalennau pan fydd eich plentyn yn barod - h.y. dim os ydynt yn flinedig, llwglyd, sychedig neu angen symud o gwmpas. Dathlwch lwyddiannau yn hytrach na sgorau - mae'n wych petai eich plentyn yn rhuthro drwy dudalen yn hawdd, ond os ydynt yn gweld y cynnwys yn fwy anodd ar dudalennau eraill, dathlwch eu hymdrech a'u gwydnwch yn hytrach na'r canlyniad.

Gallwch ddefnyddio'r siart gwobrwyo dewisol sydd ar ddiwedd y pecyn i wobrwyo ymdrechion, y gallu i ganolbwyntio a chynnydd eich plentyn. Gadewch i'ch plentyn ddewis pa wobr yr hoffent ei derbyn a gweithiwch tuag at y wobr hynny.

# Cwis Rhesymu - Asesiad Cychwynol

Adran mathemateg pen yw darn cyntaf y papur (cwestiynau 1 i 5). Bydd angen i chi ddarllen y cwestiynau canlynol i'ch plentyn a gadael iddynt gwblhau eu hatebion ar y papur. Esboniwch i'ch plentyn y byddwch yn darllen rhai cwestiynau allan iddynt. Eglurwch eich bod yn mynd i ddarllen y cwestiwn ddwywaith yn unig, gan adael saib bach rhwng y ddau. Dywedwch wrth eich plentyn bod yn rhaid iddynt wrando'n astud wrth i chi ddarllen y cwestiynau. Siaradwch â'ch plentyn am bryd dylent ysgrifennu eu hateb gan esbonio eu bod yn gallu defnyddio'r gwagle ar y dudalen i ddangos sut maent yn dod o hyd i'r ateb. Gofynnwch i'ch plentyn droi at gwestiwn 1. Unwaith i chi ddarllen y cwestiwn, cofiwch ei ailadrodd.. Ailadroddwch y testun bras yn unig.

## Cwestiwn 1

**Cylchwch y nifer cywir o ddegau ac unedau i ddangos pedwar deg pump.**

## Cwestiwn 2

**Mae yna un deg dau cownter glas ac un deg pedwar cownter coch yn y blwch. Sawl cownter sydd yna i gyd? Ysgrifennwch eich ateb yn y blwch.**

## Cwestiwn 3

**Gwrandewch ar y dilyniant rhif:**

**Sero, pump, deg, un deg pump…**

**Ysgrifennwch y ddau rif nesaf yn y dilyniant.**

## Cwestiwn 4

**Mae tri rhif yn adio i wneud chwe deg tri. Pum deg yw'r rhif cyntaf. Tri yw'r ail rif. Beth yw'r trydydd rhif? Ysgrifennwch eich ateb yn y blwch.**

## Cwestiwn 5

**Cofnodwch bob eilrif rhwng deg a dau ddeg. Ysgrifennwch y rhifau yn y blwch.**

Unwaith mae eich plentyn wedi cwblhau'r pum cwestiwn cyntaf, gallant barhau gyda gweddill y papur. Os bydd angen cymorth ar eich plentyn i ddarllen y cwestiynau, mae'n iawn i chi ei roi gan mai dyma beth fyddai'n digwydd mewn sefyllfa prawf go iawn. Er hyn, ni ddylech chi roi unrhyw awgrymiadau i'ch plentyn ar sut i ateb y cwestiwn rydych chi wedi'i ddarllen allan ac ni ddylech esbonio unrhyw dermau na symbolau mathemategol iddynt.

Unwaith mae'r prawf wedi ei gwblhau, ewch drwy'r prawf gyda'ch gilydd gan drafod unrhyw rannau roedd eich plentyn yn gweld yn heriol. Mae'r adran atebion yn cynnwys cyfeirnodau i dudalennau'r llyfryn hwn i chi fedru eu defnyddio i helpu eich plentyn i ymarfer ac adolygu unrhyw sgiliau maent yn gweld yn anodd.

1

10 10 10 1 1 1

10 10 1 1

10 10 10 1 1 1

2

cownter

3



ewch i twinkl.cymru

4


50 3

5

10 20

6

Trefnwch y parseli o’r **ysgafnaf** i’r **trymaf**.




A B C Ch

**ysgafnaf** | | | | **trymaf**




twinkl ewch i twinkl.cymru twinkl Quality Standard Approved

**7** Sawl pensil sydd gan Moli?




[ ] pensil

**8** Cyfatebwch pob darn arian i'r blwch cywir. Mae un wedi ei gwblhau i chi.

| **Llai Na**  | | **Mwy Na**  |
| --- | --- | --- |
| |  | |



ewch i twinkl.cymru



**9**

Dylai'r geiriau gyfateb â'r rhif ar y cerdyn. Mae un cerdyn yn anghywir. Rhowch groes ar y cerdyn sy'n anghywir.


| 13 | 18 | 29 | 31 |
|---|---|---|---|
| un deg tri | wyth deg | dau ddeg naw | tri deg un |


**10**


Mae Ani yn creu siart rhifo o'i theganau.


| **Teganau Yn Fy Mocs** | **Rhifo/Tali** |
|---|---|
|  | 1111 |
|  | ~~1111~~ 1 |
|  | 11 |
|  | 1 |

Ticiwch **un** o'r blychau isod i ddangos pob un o deganau Ani.










**11**

Dyma **20** cacen. Cafodd **8 gacen** eu bwyta.
Sawl cacen sydd ar ôl?



[ ] cacen

**12**

Ticiwch y **ddwy** frawddeg sydd yn gywir.

Ticiwch **ddau**

- Mae gan gylch un ochr. ☐
- Mae gan gylch ochrau syth. ☐
- Does dim corneli gan gylch. ☐
- Mae gan gylch tair ochr. ☐

**13**

Ysgrifennwch ddau rhif i gwblhau'r cyfrifiad yn gywir.

☐ + ☐ = 17

Nawr, ysgrifennwch dri rif i gwblhau'r cyfrifiad yn gywir.


☐ + ☐ + ☐ = 17

**14**

Mae gan Alffi deganau deinosoriaid. Mae'n rhoi hanner y teganau i Macs.

Mae ganddo dri thegan deinosor ar ôl.

Sawl tegan oedd gan Alffi i ddechrau?




[      ] tegan deinosor

**15**

Mae gan Alaw'r darnau arian hyn yn ei chadw mi gei.

Faint o arian sydd ganddi?






[      ] c


**16**

Ysgrifennwch y rhif cywir ym mhob blwch.



**17**


Pa un o'r siapiau sydd â **3** wyneb?




**18**

Mae Caleb ac Aled yn rhannu'r bisgedi yma'n gyfartal.

Sawl bisged yr un mae Caleb ac Aled yn cael?





bisgedi

**19**

Mae angen 25 brwsh paent ar Mrs Jones ar gyfer y dosbarth.

Mae yna 5 brwsh paent ym mhob bocs.

Sawl bocs o frwshys paent sydd angen ar Mrs Jones?




bocs

**20**

Mae gan Moli gyfanswm o 25 glain.

Mae ganddi 18 glain mewn un llaw.


Sawl glain sydd ganddi yn y llaw arall?




☐ glain

**21**


Tynnwch linellau i gyfateb y siapiau gyda'r enw cywir.




côn



silindr



ciwboid




ciwb



twinkl ewch i twinkl.cymru twinkl Quality Standard Approved


**22**

Edrychwch ar y pedwar ffrwyth isod:


30c


40c


20c


50c


Mae Ani'n prynu **tri ffrwyth gwahanol**.

Mae hi'n gwario **£1** yn union.

Ticiwch y **tri** ffrwyth y mae Ani'n eu prynu.

**23**


Mae saeth wedi cylchdroi yn glocwedd.
Faint mae'r saeth wedi cylchdroi? Cylchwch eich ateb.



| | | | |
|---|---|---|---|
| chwarter tro | hanner tro | tri chwarter tro | tro cyfan |

## 24

Faint o ddŵr sydd yn y jwg?




mililitr

## 25

Cyfatebwch y cyfrifiadau sydd yn dangos yr un ateb.
Mae un wedi ei gwblhau i chi.

| | |
|---|---|
| 30 + 3 | 30 + 33 |
| 60 + 3 | 60 + 23 |
| 80 + 3 | 20 + 13 |
| 70 + 3 | 40 +33 |



ewch i twinkl.cymru

# Gwerth Lle

Beth sydd angen i chi wybod: Erbyn diwedd blwyddyn 2, mae angen i blant fedru deall gwerth digidau mewn rhif 2-ddigid. Dylent fedru trefnu rhifau, cyfateb geiriau a ffigurau a defnyddio eu dealltwriaeth o werth lle er mwyn adio a thynnu degau ac adio a thynnu rhifau 2-ddigid. Hefyd, byddant yn dysgu sut i ddarganfod rhifau ar linell rhif neu raddfa a defnyddio eu dealltwriaeth o werth lle i ennyn gwell dealltwriaeth o'r perthynas rhwng rhifau.


ewch i twinkl.cymru

# Degau ac Unedau

Mae rhif 2-digid wedi ei greu gan ddigid ‘degau’ a digid ‘unedau’.

**45**

digid ‘degau’ digid ‘unedau’

Mae gan y rhif 45, 4 deg a 5 uned. Mae angen i ni ddeall bod y 4 deg yn hafal i 40, a’r 5 uned yn hafal i 5.

Gallwn ysgrifennu hyn fel brawddeg rif adio hefyd.

$$45 = 40 + 5$$

Cwblhewch y tabl.

| Rhif | Nifer o ‘Ddegau’ | Nifer o ‘Unedau’ | Brawddeg Rif |
|---|---|---|---|
| 32 | 3 | 2 | 32 = 30 + 2 |
| 96 | | | |
| 12 | | | |
| 80 | | | |
| 55 | | | |
| 7 | | | |

Gallwn ddefnyddio ein gwybodaeth o werth lle i ysgrifennu brawddegau rhif cysylltiedig hefyd. Er enghraifft, os ydych chi'n gwybod bod:

**50 + 4 = 54**

Gallaf symud degau o un ochr y symbol '+' i'r ochr arall a chael yr un ateb

**40 + 14 = 54**

**30 + 24 = 54**

**20 + 34 = 54**

**10 + 44 = 54**

Tra bod ein digid 'degau' yn parhau i greu 5 (50) a bod ein digidau 'unedau' ddim yn newid, bydd yr ateb yn aros yr un peth.

Cwblhewch y brawddegau rhif. Mae'r cyntaf wedi ei gwblhau i chi.

30 + 5 = 20 + [15]

40 + 6 = 30 + [ ]

60 + 1 = 40 + [ ]

90 + 2 = 50 + [ ]

20 + 7 = [ ] + 17

50 + 8 = [ ] + 28

70 + 4 = [ ] + 54

Nawr, cyfatebwch y symiau sydd gyda'r un ateb.

| | |
|---|---|
| 30 + 8 | 50 + 18 |
| 70 + 8 | 40 + 18 |
| 60 + 8 | 20 + 18 |
| 40 + 8 | 20 + 18 |

# Geiriau a Ffigurau

Sicrhewch eich bod yn gwybod sut i ysgrifennu'r rhifau o 1 i 100 mewn geiriau yn hyderus. Dysgwch y rhifau 'degau' a'r rhifau 'un deg...', ac yna edrychwch am batrymau wrth i chi ychwanegu'r rhifau 1 i 9 i'r rhifau 'un deg...'.

| | |
|---|---|
| 1 | |
| 2 | |
| 3 | |
| | pedwar |
| 5 | |
| 6 | |
| 7 | |
| | wyth |
| 9 | |
| 10 | |
| 11 | |
| | un deg dau |
| 13 | |
| 14 | |
| 15 | |
| | un deg chwech |
| | un deg saith |
| 18 | |
| 19 | |

| | |
|---|---|
| | deg |
| 20 | |
| 30 | |
| | pedwar deg |
| 50 | |
| 60 | |
| | saith deg |
| 80 | |
| 90 | |
| 100 | |

Cyfatebwch y rhifau yma i'r enw cywir.

| | |
|---|---|
| 56 | naw deg naw |
| 43 | pedwar deg tri |
| 70 | pum deg chwech |
| 21 | wyth deg un |
| 99 | saith deg |
| 81 | dau ddeg un |

Mae dau o'r cardiau isod yn anghywir. Pa rai?

| | | | |
|---|---|---|---|
| 50<br>un deg pump | 13<br>un deg tri | 21<br>dau ddeg un | 96<br>chwech deg naw |


ewch i twinkl.cymru

# Trefnu Rhifau a Darllen Graddfeydd

Mae defnyddio graddfeydd neu linellau rhif yn ein helpu i ddeall sut i drefnu rhifau. Mae gwybod gwerth y 'degau' a'r 'unedau' mewn rhif 2-ddigid yn ein helpu i weld a ydy'r rhif yn fwy neu yn llai na rhif arall ac mae hyn yn ein helpu i'w drefnu.

Trefnwch y rhifau o'r **lleiaf i'r mwyaf**.

43, 56, 21, 8, 99, 12, 34

___, ___, ___, ___, ___, ___, ___

29, 19, 39, 9, 99, 79, 59

___, ___, ___, ___, ___, ___, ___

23, 26, 21, 28, 29, 22, 24

___, ___, ___, ___, ___, ___, ___

Trefnwch y rhifau o'r **mwyaf i'r lleiaf**.

73, 16, 91, 22, 89, 52, 4

___, ___, ___, ___, ___, ___, ___

16, 36, 96, 6, 76, 26, 46

___, ___, ___, ___, ___, ___, ___

64, 65, 60, 67, 68, 63, 61

___, ___, ___, ___, ___, ___, ___

Petai rhywun yn gofyn i chi osod rhifau ar llinell rif, cofiwch edrych ar y rhifau ar ddechrau a diwedd y llinell er mwyn eich helpu i ddeall beth mae'r llinell yn dangos. Er enghraifft, petai angen gosod '15' ar y llinellau rhif isod, ble byddech chi'n eu rhoi?













Weithiau, mae gan raddfeydd a llinellau rhif raniadau, gall fod heb eu labelu â rhif. Pa rifau, tybiwch chi sy'n mynd ar bob rhaniad?




Mae yna bedwar rhaniad felly byddai'n gwneud synnwyr eu bod wedi eu rhifo fesul 10. Nawr, mae hi'n haws gweld lle dylai 15 fynd ar y llinell rif yma.





ewch i twinkl.cymru

Weithiau, bydd cwestiwn yn gofyn i chi osod rhifau ar linell rif.

Allwch chi osod y rhifau hyn mewn trefn ar y llinell rif?

**3, 7, 1, 6, 4, 9**





**20, 49, 1, 10, 35, 43**






Efallai bydd cwestiwn yn gofyn i chi ddweud pa rif ydych chi’n meddwl sy’n cael ei ddangos ar y llinell rif. Dyma pryd mae edrych ar y rhifau a’r rhaniadau yn bwysig iawn er mwyn i chi gael cymorth.

Pa rifau sy'n cael eu dangos ar y llinellau rhif yma?

(Meddyliwch am beth mae'r marc sydd hanner ffordd rhwng pob rhif yn dangos i chi).









twinkl Quality Standard Approved


# Yn Fwy ac Yn Llai Na

Weithiau, yn lle gofyn i chi osod set o rifau mewn trefn, bydd cwestiwn yn gofyn i chi ddefnyddio'r symbolau 'yn fwy', 'yn llai' ac 'yn hafal'.



**<**

**yn llai na**



**>**

**yn fwy na**

Gallwn ysgrifennu brawddeg rhif fel hyn:

**35 < 53**

**neu**

**53 > 35**

Efallai y bydd gofyn i chi ateb cwestiynau fel hyn:

Rhowch y symbol cywir yn y blychau.

**25** ☐ **32**    **41** ☐ **14**    **99** ☐ **45**    **14** ☐ **35**

**16 >** ☐    **30 >** ☐    ☐ **< 99**    **54 >** ☐

Weithiau, mae yna gyfrifiad i'w wneud ar bob ochr o'r symbol.

$4 + 3 \; \square \; 6 + 5$

Y ffordd hawsaf i ddarganfod yr ateb yw dod o hyd i ateb pob cyfrifiad yn gyntaf fel bod gennych un rhif bob ochr i'r symbol.

$4 + 3 \; \square \; 6 + 5$

$7 \quad < \quad 11$

Yna gallwch ddarganfod pa symbol sydd angen yn y blwch.

$4 + 3 \; \boxed{<} \; 6 + 5$

Rhowch gynnig ar y cwestiynau isod. Cofiwch ddatrys y cyfrifiad ar bob ochr i'r blwch cyn dewis y symbol.

$3 + 5 \; \square \; 4 + 6$

$21 + 5 \; \square \; 20 + 6$

$7 + 8 \; \square \; 9 + 3$

$30 + 40 \; \square \; 20 + 60$

$4 + 3 \; \square \; 4 \times 3$

$5 + 5 + 5 \; \square \; 5 \times 3$

Gallwch ddatrys problemau drwy ddefnyddio’r symbolau ‘<’, ‘>’ ac ‘=’ hefyd.

Mae’r milfeddyg wedi dod i bwyso’r anifeiliaid mewn sŵ.
Mae pwysau’r anifeiliaid wedi eu nodi yn y tabl isod.

| | |
|---|---|
| **llew** | **80kg** |
| **teigr** | **95kg** |
| **tsimpansi** | **50kg** |
| **panda coch** | **45kg** |


Llenwch y blychau gyda <, > neu =.

**llew** □ **teigr**

**tsimpansi** □ **panda coch**

**teigr** □ **tsimpansi + panda coch**

Dyma bris rhai o’r losin yn y siop:




Llenwch y blychau gyda <, > neu =.

**Selsig Siocled** ☐ **Traed Taffi**

**Losin Lwcus** ☐ **Selsig Siocled**

Llenwch y blychau.

**Selsig Siocled** < ☐

☐ = **Popiwr Pigog + Traed Taffi**



twinkl Quality Standard Approved

# Cyfrifiad

## Adio a Thynnu

Beth sydd angen i chi wybod: Mae yna ddwy elfen i ddealltwriaeth plentyn o gyfrifiad. Dealltwriaeth o adio a thynnu a'r berthynas rhwng y ddau yw'r cyntaf. Datblygiad sgiliau sy'n cefnogi mathemateg pen a chyfrifiadau ysgrifenedig cyflym a chywir yw'r ail. Mae'r holl sgiliau hyn yn cael eu profi mewn prawf gweithdrefnol ar wahân yn ystod y flwyddyn ysgol.

Yr agwedd arall ar gyfrifo yw gallu cymhwyso gwybodaeth i ddatrys problemau, a dyma sy'n cael ei brofi yn y prawf rhesymu. Bydd angen i blant ddarganfod y wybodaeth allweddol mewn problemau geiriol er mwyn dewis pa gyfrifiad sydd angen iddynt ei ddefnyddio. Mae athrawon yn dueddol o ddweud wrth blant am danlinellu'r pwyntiau allweddol mewn problemau geiriol ac i edrych am eirfa sy'n cyfeirio at y fath o gyfrifiad sydd angen ei wneud - er enghraifft, mae 'Beth yw'r cyfanswm?' yn dueddol o awgrymu bod angen defnyddio cyfrifiad adio, lle mae 'Sawl un sy'n weddill?' yn aml yn cyfeirio at gyfrifiad tynnu. Mae angen i blant fedru defnyddio eu dealltwriaeth o gyfrifiadau mewn meysydd gwahanol o fathemateg hefyd, er enghraifft, adio symiau o arian at ei gilydd neu gyfrifo'r gwahaniaeth mewn tymheredd.

## Adio a Thynnu Degau a Rhifau 2-Ddigid

Beth sydd angen i chi wybod: Unwaith bod plentyn yn hyderus yn ymdrin â chyfrifiadau sy'n cynnwys rhifau 1-digid, gallant symud ymlaen at gyfrifiadau sy'n cynnwys rhifau 2-ddigid, ar yr amod bod ganddynt ddealltwriaeth sicr o werth lle hefyd. Mae plant yn cael eu dysgu i gyfrif ymlaen ac yn ôl mewn 10au o unrhyw rif, e.e. 4, 14, 24 ac yn y blaen. Mae hyn yn ddefnyddiol pan maent yn adio rhif 'degau' neu'n tynnu rhif 'degau' oddi wrth rif arall. Maent hefyd yn cael eu dysgu i adio a thynnu dau rif 2-ddigid drwy adio neu dynnu'r degau ac yna'r unedau, neu i ddefnyddio llinell rif i dynnu lle bod hi'n amhosib tynnu'r digidau ar wahân. Byddwn yn edrych ar broblemau geiriol sy'n ymdrin â rhifau 2-ddigid. Mae angen bod plant yn medru darganfod y wybodaeth allweddol mewn problemau geiriol er mwyn gwybod pa fath o gyfrifiad sydd angen iddynt ddefnyddio. Mae athrawon yn dueddol o ddweud wrth blant am danlinellu'r pwyntiau allweddol mewn problemau geiriol ac i edrych am eirfa sy'n cyfeirio at y fath o gyfrifiad sydd angen ei wneud - er enghraifft, mae 'Beth yw'r cyfanswm?' yn dueddol o awgrymu bod angen defnyddio cyfrifiad adio, lle mae 'Sawl un sy'n weddill?' yn aml yn cyfeirio at gyfrifiad tynnu. Mae angen i blant fedru defnyddio eu dealltwriaeth o gyfrifiadau mewn meysydd gwahanol o fathemateg hefyd, er enghraifft, adio symiau o arian at ei gilydd neu gyfrifo'r gwahaniaeth mewn tymheredd.

# Adio a Thynnu

Yn gyntaf, dewch i ni edrych ar rai problemau adio.

Mae yna 8 aderyn mewn coeden. Mae 3 aderyn arall yn glanio ar y goeden. Sawl aderyn sydd yna yn gyfan gwbl?

**Y peth cyntaf sydd angen ei wneud yw darllen y broblem yn ofalus ac yna tanlinellu'r wybodaeth bwysig. Rhowch dro ar danlinellu'r geiriau allweddol yn y broblem eiriol hon.**

Mae yna <u>8</u> aderyn mewn coeden. Mae <u>3</u> aderyn <u>arall</u> yn glanio ar y goeden. Sawl aderyn sydd yna <u>yn gyfan gwbl</u>?

Mae'r wybodaeth bwysig yn dweud wrthym ba rifau sy'n cael eu ddefnyddio a beth sydd angen ei wneud iddynt. Mae'r term '**yn gyfan gwbl**' yn dweud beth sydd angen gwneud gyda'r rhifau. Mae'r term '**arall**' hefyd yn darparu cliw ein bod yn adio.

Dyma rai ffyrdd gallwch fynd ati i ddatrys y broblem nawr eich bod yn gwybod y wybodaeth allweddol.

- Yn gyntaf, gallwch ddatrys y broblem yn eich pen drwy ddefnyddio bondiau rhif i 10.

**8 + 3 =**

**8 + 2 + 1 = ?**

- Neu gallwch gyfrif ymlaen yn eich pen neu ddefnyddio eich bysedd.


**8, 9, 10, _**

- Efallai byddwch chi am ddefnyddio'r 'dull bar'.

| 8 | 3 |
|---|---|
| ? | |

**8 + 3 = ?**

• Neu'r dull 'rhan o un cyfan'.




**8 + 3 = ?**

• Neu fel arall, efallai bydd yn eich helpu i greu diagram gweledol drwy greu smotiau i gynrychioli'r gwrthrychau sy'n cael eu nodi yn y broblem.



8 aderyn + 3 aderyn =

Defnyddiwch y dull sy'n gweithio orau i chi er mwyn datrys y problemau geiriol adio ar y dudalen nesaf.

**Problemau Adio**

Mae yna 7 pysgodyn yn nhanc pysgod yr ysgol. Mae Mrs Smith yn mynd i'r siop anifeiliaid anwes ac yn prynu 7 arall. Sawl pysgodyn sydd yno yn awr?

Dywedodd Hari 'Rydw i wedi bwyta 4 losin'. Dywedodd Abel 'Bwytais i 5 yn fwy na' ti.' Sawl losinen wnaeth Abel fwyta?

Dyma siart sy'n dangos y nifer o bensiliau sydd mewn pot.

| | |
|---|---|
| coch | 5 |
| glas | 9 |
| gwyrdd | 3 |

Beth yw cyfanswm y pensiliau coch a glas?

Sawl pensil coch a gwyrdd sydd yno yn gyfan gwbl?

Beth yw cyfanswm yr holl bensiliau yn y pot?

Nawr, dewch i ni edrych ar rai broblemau tynnu.

Mae gan Sam 12 cacen. Mae'n bwyta 4 ohonyn nhw. Sawl un sy'n weddill?

**Darllenwch y broblem yn ofalus gan danlinellu'r wybodaeth bwysig.**

Mae gan Sam 12 gacen. Mae'n bwyta 4 ohonyn nhw. Sawl un sy'n weddill?

Mae'r wybodaeth bwysig yn dweud wrthym pa rifau sy'n cael eu defnyddio a beth sydd angen ei wneud iddynt. Mae'r term '**Sawl un sy'n weddill?**' yn dweud wrthym ei fod yn broblem tynnu. Mae'r ffaith bod rhai o'r cacennau'n cael eu bwyta hefyd yn rhoi cliw i ni fod angen 'tynnu ffwrdd'.

Ffaith bwysig i gofio am dynnu yw ei fod weithiau yn cael ei gyfeirio ato fel 'darganfod y gwahaniaeth' rhwng ddau rhif. Er enghraifft, yn y frawddeg rif...

**10 - 4 = 6**

...rydyn ni'n ceisio **darganfod y gwahaniaeth** rhwng 10 a 4 a'r gwahaniaeth hynny yw 6. Weithiau, bydd problemau geiriol yn defnyddio'r gair 'gwahaniaeth' yn lle tynnu.
Dyma enghraifft:

Wythnos diwethaf, daeth 12 plentyn i'r clwb pel-rwyd. Yr wythnos yma, daeth 9 plentyn. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng nifer y plant a fynychodd clwb?

**12 – 9 = 3 phlentyn**

Yn ogystal â hyn, gall problem eiriol tynnu ddefnyddio ymadroddion fel '**Sawl un yn fwy...?**', '**Sawl un yn llai...?**' ac weithiau '**Faint yn hŷn/ifancach...?**', '**Faint yn drymach/dalach/byrrach...?**' hefyd. Eto, cadwch lygad allan am ymadroddion tebyg gan eu bod yn awgrymu mai problem tynnu sydd yno.

Mae gan Steffan 12 cerdyn pêl-droed. 8 sydd gan Jac. Sawl un yn fwy sydd gan Steffan?

**12 – 8 = 4 cerdyn**

Mae Joanna yn 8. Mae ei chyfnither Liwsi yn 10. Faint yn hŷn na'i chyfnither yw Liwsi?

**10 – 8 = 2 flynedd yn hŷn**

Dyma rai ffyrdd gallwch fynd ati i ddatrys problemau tynnu nawr eich bod yn gwybod y wybodaeth bwysig.

• Yn gyntaf, gallwch ddatrys y broblem yn eich pen, efallai drwy bontio 10.

**12 – 4 =**

**12 – 2 – 2 = ?**

• Gallwch gyfrifo am yn ôl yn eich pen neu drwy ddefnyddio eich bysedd.


12, **11, 10, 9, _**

• Efallai byddwch am ddefnyddio'r 'dull bar'. Cofiwch eich bod yn gwybod y rhif mwyaf yn barod wrth ymdrin â phroblem tynnu.


<table>
<tr><td>?</td><td>4</td></tr>
<tr><td colspan="2">12</td></tr>
</table>

12 - 4 = ?

• Gallwch ddefnyddio'r dull 'rhan o gyfan'. Eto, cofiwch eich bod yn gwybod y rhif 'cyfan' ac un o'r 'rhannau' wrth dynnu.




• Ac yn olaf, gall lunio smotiau i gynrychioli'r gwrthrychau yn y broblem ac yna croesi allan y rhai sydd angen eu tynnu fod o gymorth i chi.



12 cacen gyda 4 wedi eu cymryd i ffwrdd. Sawl un sydd ar ôl? Defnyddiwch pa bynnag ddull sy'n gweithio orau i chi wrth ddatrys y problemau geiriau tynnu.

## Problemau Tynnu

Mae yna 18 pili-pala mewn clawdd. Mae 7 yn hedfan i ffwrdd. Sawl un sy'n weddill?

Mae yna 25 o blant mewn dosbarth. Mae 10 plentyn yn mynd i weld y nyrs ysgol. Sawl plentyn sy'n dal i fod yn y dosbarth?

Mae Amy a Sioned yn adeiladu tyrau gyda blociau. Uchder tŵr Amy yw 20cm. Uchder tŵr Sioned yw 25cm. Faint yn fyrrach yw tŵr Amy?

Mae Dosbarth Gwyrdd yn mesur tymheredd y dosbarth dros gyfnod o ddiwrnod cyfan. Maen nhw'n darganfod mai'r tymheredd isaf oedd 8°C a'r tymheredd uchaf oedd 14°C. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau dymheredd?


ewch i twinkl.cymru

# Adio a Tynnu
# Degau a Rhifau 2-Ddigid

**Cyfrif Ymlaen Fesul Deg**

Cyfrwch ymlaen fesul 10 o'r rhifau isod.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 14 | | | | 54 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 35 | | | | | 85 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 11 | | | | |

Rhowch gynnig ar y cyfrifiadau hyn. Datryswch y broblem drwy gyfri fesul 10.

**67 + 10 =**

**54 + 10 + 10 =**

**20 + 10 + 10 + 10 =**

Nawr, dyfalwch sawl deg sydd angen i chi gyfrif ymlaen ar gyfer y cwestiynau isod.

**35 + 20 =**

**18 + 30 =**

**Cyfrif Yn Ôl Fesul Deg**

Cyfrwch yn ôl fesul 10 o'r rhifau isod.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 82 | 72 | | | | 32 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 60 | | | | | 10 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 57 | 47 | | | | |

Rhowch gynnig ar y cyfrifiadau hyn. Ceisiwch ddatrys y broblem drwy gyfrif yn ôl fesul 10au.

**34 - 10 =**

**42 – 10 – 10 =**

**99 – 10 – 10 – 10 – 10 =**

Nawr, dyfalwch sawl deg sydd angen i chi gyfrif yn ôl ar gyfer y cwestiynau isod.

**78 - 30 =**

**48 – 40 =**

**Adio Rhifau 2-Ddigid**

Dewch i ni edrych ar adio dau rif 2-ddigig. Fel arfer, gallwch wneud hyn drwy adio'r digidau 'degau' ac adio'r digidau 'unedau', fel hyn:

**34 + 23 =**

**30 + 20 + 4 + 3 = 57**

**neu**

**34 + 23 =**

**50 + 7 = 57**

Weithiau, bydd y cyfrifiad ychydig mwy heriol, er enghraifft, pan fod y digidau 'unedau' yn adio i wneud 10 neu'n fwy, fel hyn:

56 + 27 =

50 + 20 + 6 + 7 =

70 + 13 = 83

**neu**

56 + 27 =

70 + 13 =

80 + 3 = 83


Gall tynnu dau rif 2-ddigid fod yn ddigon syml hefyd.

**67 – 34 =**

**(60 – 30) + (7 – 4) = 33**

**neu**

**67 - 34 =**




**30 + 3 = 33**

A wnaethoch chi sylw bod angen i chi adio'r ddau rif rydych wedi cyfrifo o'r 'degau' ac 'unedau', er ei fod yn swm tynnu? Mae hyn oherwydd eich bod ond yn tynnu'r 'degau' oddi wrth ei gilydd a'r 'unedau' oddi wrth ei gilydd, yna rhaid i chi 'eu rhoi yn ôl at ei gilydd' drwy adio.

Weithiau, gall swm tynnu fod ychydig yn fwy heriol. Allwch chi weld beth gall fod yn lletchwith am y swm isod?

**62 – 28 =**

Os gwnewch chi edrych yn ofalus, gallwch weld y byddwn ni'n gorffen gydag ateb sy'n llai na sero wrth geisio tynnu'r digidau 'unedau'. Yn yr achos yma, yn lle tynnu'n syth ceisiwch ddefnyddio linell rif i 'ddarganfod y gwahaniaeth', fel hyn:




2 + 10 + 10 + 10 + 2 = 34 felly'r gwahaniaeth rhwng 28 a 62 yw 34, neu 62 – 28= 34.

Nawr, dewch i ni roi cynnig ar broblemau geiriol.
Cofiwch danlinellu'r wybodaeth bwysig cyn i chi ddechrau.

Mae yna 25 plentyn yn y Dosbarth Coch a 23 plentyn yn Nosbarth Gwyrdd. Sawl plentyn sydd yno yn gyfan gwbl?

Mae yna 55 plentyn yn chwarae pêl-droed ar y cae chwarae. Mae 14 ohonyn nhw yn mynd i gael cinio. Sawl plentyn sydd ar ôl?

Mae Aled yn darllen 16 tudalen o'i lyfr newydd. Mae yna 25 dudalen ar ôl i'w darllen. Sawl tudalen sydd yn y llyfr i gyd?

Mae gan Mrs Smith bocs o 35 pensil newydd. Mae'n rhoi 18 ohonyn nhw i'w dosbarth. Sawl pensil sydd ar ôl yn y bocs?

# Arian

Beth sydd angen i chi wybod: Mae dysgu am arian yn sgil ar gyfer bywyd. Ym mlwyddyn 2, bydd plant yn parhau i ddysgu am werth darnau arian gwahanol, yn ogystal â sut i gwblhau cyfrifiadau wrth ymdrin ag arian, megis cyfrifo cyfanswm gwerth set o ddarnau arian, adio gwerthoedd arian at ei gilydd a rhoi newid. Maent hefyd yn dechrau dysgu am y cysyniad bod £1 yn hafal i 100c ac mae hyn yn cyflwyno degolion mewn modd syml iawn. Mae dealltwriaeth dda o adio, cyfrif fesul 'deg' a 'darganfod y gwahaniaeth' yn bwysig iawn wrth drin arian.


ewch i twinkl.cymru

# Gwerth Darnau Arian


Yn gyntaf, dewch i ni adolygu gwerth y darnau arian gwahanol.
Tynnwch linellau i gyfateb y darnau arian gyda'r gwerth cywir.

| | |
|---|---|
|  | 1c |
|  | 2c |
|  | 5c |
|  | 10c |
|  | 20c |
|  | 50c |
|  | £1 |
|  | £2 |

# Adio Darnau Arian

Dewch i ni edrych ar rai problemau ‘adio darnau arian’. Cofiwch, wrth adio darnau arian at ei gilydd, mae’n haws dechrau gyda’r darn arian sydd â'r gwerth mwyaf ac adio drwy gyfrif ymlaen fesul 10, 5, 2 ac 1.

Faint o arian sydd yn y pwrs?



Gallwn ddechrau gyda’r darnau arian sydd â’r gwerth mwyaf a gweithio ein ffordd i lawr, mae angen i ni ddatrys y cyfrifiad isod:

**20 + 20 + 10 + 5 + 1 =**

Gallwch wneud hyn drwy adio’r ‘degau’ yn gyntaf.

**20 + 20 + 10 = 50**

Yna gallwch adio’r 5c a’r 1c.

**5 + 1 = 6**


Ac yn olaf, rhaid adio’r atebion i gael y cyfanswm.


**50 + 6 = 56c**

Peidiwch anghofio cynnwys yr uned rydych chi’n ei ddefnyddio yn eich ateb - ‘c’ am ‘ceiniog’ yn yr achos yma.

Rhowch gynnig ar fwy o gyfrifiadau ‘adio darnau arian’ ar y dudalen nesaf.


Beth yw cyfanswm yr arian ym mhob cadw-mi-gei?





c

c




c

c

Mae yna stondin gacennau yn y ffair haf.



**cacennau bach**

**10c**




**fflapjac**

**20c**



**cacen siocled**


**25c**





**cwci**

**30c**

Mae Jac yn gwario 50c yn union ar gacennau.
Ticiwch y bocs i ddangos beth wnaeth e brynu.







Dim ond darnau 5c sydd gan Jac yn ei boced. Dywedodd, ‘Dydw i ddim yn gallu talu’r arian cywir gyda darnau 5c yn unig.’ Ydyw e’n gywir? Esboniwch sut ydych chi’n gwybod.



ewch i twinkl.cymru

# Rhoi Newid

Nawr, byddwn ni'n edrych ar roi newid. Weithiau, ni fydd yr arian cywir gyda chi pan fyddwch chi am dalu am rywbeth. Os byddwch chi'n rhoi fwy o arian i'r gweithiwr siop na chost yr eitem, byddan nhw'n rhoi'r gwahaniaeth rhwng y swm rydych chi wedi ei roi a chost yr eitemau yn ôl i chi.


Rydyn ni'n galw hyn yn 'rhoi newid'.

Mae Hana'n prynu diod ac afal yn siop byrbrydau'r ysgol. Cyfanswm y gost yw 35c. Mae Hana'n talu gyda darn arian 50c. Faint o newid bydd hi'n ei dderbyn?

**I ddarganfod yr ateb, rhaid i ni ddarganfod y gwahaniaeth rhwng 35 a 50. Gallwn wneud hyn drwy gyfrif ymlaen yn ein pennau:**

**35, 40, 45, 50 - mae yna 3 naid o 5, sy'n gwneud 15**


neu gallwn ni ddefnyddio llinell rif.




Mae Hana'n derbyn 15c o newid.


Ceisiwch ddarganfod cyfanswm y newid yn y problemau geiriol ar y dudalen nesaf.

Dyma'r ffrwythau sydd ar werth yn y siop heddiw:



**banana**

**22c**



**afal**

**34c**



**gellygen**

**31c**




**grawnwin**


**42c**


Cyfrifwch a dangoswch gyfanswm y newid byddech yn ei dderbyn petaech yn prynu pob ffrwyth yn ei dro gan dalu gyda darn arian 50c.

| **Ffrwyth** | **Pris** | **Newid o 50c** |
|---|---|---|
| banana | 22p | |
| afal | 34p | |
| gellygen | 31p | |
| grawnwin | 42p | |

Mae Lucy'n prynu afal a grawnwin. Mae hi'n talu gyda darn arian £1. Ticiwch y blwch sy'n dangos cyfanswm y newid bydd Lucy'n ei dderbyn.







# Lluosi a Rhannu

Beth sydd angen i chi wybod: Mae yna ddau agwedd i ddealltwriaeth cyfrifiadau lluosi a rhannu. Dealltwriaeth o luosi a rhannu a'r berthynas rhwng y ddau yw'r cyntaf. Yr ail yw'r datblygiad o sgiliau bydd yn cefnogi medrau cyflym a chywir o ddatrys cyfrifiadau yn y pen ac yn ysgrifenedig. Mae'r holl sgiliau hyn yn cael eu profi yn y papur prawf mathemateg gweithdrefnol yn flynyddol. Yr agwedd arall i gyfrifo yw'r gallu i roi'r wybodaeth ar waith i ddatrys problemau a dyma beth sy'n cael ei brofi ym mhrif gorff y prawf rhesymu a beth fyddwn yn edrych arno nesaf. Mae angen bod plant yn medru darganfod y wybodaeth allweddol mewn problemau geiriol er mwyn darganfod pa fath o gyfrifiad mae'r cwestiwn yn gofyn iddynt wneud. Mae athrawon yn dueddol o ddweud wrth blant am danlinellu'r pwyntiau allweddol mewn problemau geiriol ac i edrych am eirfa sy'n cyfeirio at y fath o gyfrifiad sydd angen ei wneud. Gall hyn fod mwy cymhleth gyda lluosi a rhannu felly caiff plant eu haddysgu i edrych am gliwiau bod nifer o wrthrychau yn cael eu grwpio neu eu rhannu. Cliw arall yw pan fod nifer y gwrthrychau mewn un grŵp yn cael ei nodi ac mae'n rhaid i'r plant gyfrifo sawl un byddai mewn mwy nag un grŵp. Er enghraifft, 'Mae gan un estron 3 llygad. Beth yw cyfanswm y llygaid sydd gan 5 estron?'. Un o'r pethau gorau gall plant ei wneud yw dysgu tablau 2, 5 a 10 a'r ffeithiau rhannu sy'n perthyn iddynt fel eu bod yn medru eu galw i'r cof yn gyflym ac yn effeithlon. Hefyd, mae angen bod plant yn medru defnyddio'u gwybodaeth o gyfrifiadau mewn meysydd mathemategol eraill, h.y. arian a mesur.


ewch i twinkl.cymru

# Lluosi a Rhannu

**Problemau Lluosi**

Mae Joe yn coginio 5 hambwrdd o gacennau. Mae yna 10 cacen ar bob hambwrdd. Sawl cacen mae Joe yn coginio yn gyfan gwbl?

**Y peth cyntaf sydd angen i ni wneud yw darllen y cwestiwn yn ofalus ac yna tanlinellu'r wybodaeth bwysig. Tanlinellwch y wybodaeth bwysig yn y broblem eiriol hon.**

Mae Joe yn coginio <u>5 hambwrdd</u> o gacennau. Mae yna <u>10</u> cacen ar <u>bob hambwrdd</u>. <u>Sawl</u> cacen mae Joe yn coginio <u>yn gyfan gwbl</u>?

Mae'r wybodaeth bwysig yn dweud wrthym pa rifau rydym yn defnyddio a beth sydd angen i ni wneud gyda nhw. Mae'r ymadrodd, '**Sawl... yn gyfan gwbl**' yn gallu gwneud i ni feddwl bod hwn yn broblem adio, ac mewn gwirionedd, gallwn ni ei ddatrys drwy adio,

$$10 + 10 + 10 + 10 + 10$$

ond mae hi dipyn yn gynt i ddefnyddio lluosi. Mae'r geiriau, '5 hambwrdd' yn dweud wrthym fod angen 5 grŵp o 10. Lluoswch, mewn geiriau eraill:

$$5 \times 10$$

Dyma rai ffyrdd allwch chi ddatrys problem ar ôl i chi dderbyn y wybodaeth bwysig uchod.

- Yn gyntaf, gallwch ddatrys y broblem yn eich pen os ydych chi'n gwybod eich tablau 5 neu 10.

$$5 \times 10 = ?$$


$$10 \times 5 = ?$$

- Os ydych chi'n cyfrif fesul 5 neu 10, gallwch ddarganfod yr ateb.

**5, 10, 15, 20, 25, 30, 35, 40, 45, ?**

**10, 20, 30, 40, ?**

• Gallech greu arae, gyda 5 rhes o 10 smotyn.



• Gallech hyd yn oed dynnu llun 5 hambwrdd gyda 10 smotyn ar bob un, i gynrychioli'r cacennau - ond byddwch yn ofalus gan fod yna lawer o smotiau i'w cyfrif! Mae'n well o lawer i chi ddysgu eich tablau a sut i gyfrif fesul 5 a 10.

Nawr, dewch i ni roi cynnig ar rai problemau geiriol lluosi ar y dudalen nesaf.

Ceisiwch ddatrys y problemau isod gan ddefnyddio dull o’ch dewis.

Mae yna 12 plentyn mewn ystafell. Beth yw cyfanswm eu coesau?

Mae bananas yn costio £2 fesul clwstwr. Prynodd William 4 clwstwr.
Faint dalodd William amdanynt?

Nofiodd Medi lled y pwll 6 gwaith. Mae lled y pwll yn mesur 10 metr.
Pa mor bell nofiodd medi yn gyfan gwbl?

Mae yna 7 diwrnod mewn wythnos. Sawl diwrnod sydd mewn 5 wythnos?

Mae angen 15 litr o lemonêd ar Laura ar gyfer parti. Mae un botel lemonêd yn dal 2 litr ac mae ganddi 8 botel. Oes ganddi ddigon o lemonêd? Dangoswch sut ydych chi’n gwybod.

**Problemau Rhannu**

Mae Daniel yn pobi 25 cacen. Mae'n gosod y cacennau mewn bocsys. Mae pob bocs yn dal 5 cacen. Sawl bocs sydd angen arno?

**Y peth cyntaf sydd angen i ni wneud yw darllen y cwestiwn yn ofalus ac yna tanlinellu'r wybodaeth bwysig. Tanlinellwch y wybodaeth bwysig yn y broblem eiriol hon.**

Mae Daniel yn pobi 25 cacen. Mae'n gosod y cacennau mewn bocsys. Mae pob bocs yn dal 5 cacen. Sawl bocs sydd angen arno?

Mae'r wybodaeth bwysig yn dweud wrthym pa rifau rydym yn eu defnyddio a beth sydd angen i ni wneud gyda nhw. Pe bawn yn darllen y cwestiwn yn ofalus, gallwch weld bod y cacennau'n cael eu rhannu i grwpiau. Dyma gliw mawr mai problem rannu yw hon. Mae yna 25 cacen yn cael eu rhannu i grwpiau o 5.


$$25 \div 5 = ?$$

Dyma rai ffyrdd allwch chi ddatrys y broblem ar ôl i chi dderbyn y wybodaeth bwysig uchod.

- Gallwch ddatrys y broblem yn eich pen petaech yn gwybod eich tabl 5.
- Os ydych chi'n medru cyfrif fesul 5, gallwch gyfrifo ymlaen tan i chi gyrraedd yr ateb. Dewch i ni weld sawl gwaith sydd angen cyfrif fesul 5 i gyrraedd 25.

**5, 10, 15, 20, 25**

- Gallech grwpio 25 smotyn i grwpiau o 5 a gweld sawl grŵp byddwch wedi'u creu.



Nawr, dewch i ni roi cynnig ar rai problemau geiriol rhannu ar y dudalen nesaf.

Ceisiwch ddatrys y problemau isod gan ddefnyddio dull o'ch dewis.

Mae yna 50 bys troed mewn ystafell. Sawl person sydd yno?

Mae Joe yn gosod tri sgŵp o hufen ia ar bob côn. Fe ddefnyddiodd 21 sgŵp i gyd. Sawl côn oedd yno?

Mae bocs yn dal 5 pensil. Mae angen 30 pensil ar Mrs Brown i'w dosbarth. Sawl bocs sydd angen arni?

Mae Ben yn gwario £1 ar docynnau raffl. Mae'n derbyn 10 tocyn. Faint oedd pob tocyn?

Mae Ruby'n rhannu 23 losinen yn gyfartal rhwng 5 ffrind. Mae hi'n cadw unrhyw losin sydd ar ôl i'w hunain. Sawl losinen sydd gan Ruby?


# Ffracsiynau


Beth sydd angen i chi wybod: Erbyn blwyddyn 2, mae yna ddisgwyl bod plant wedi datblygu dealltwriaeth o ystyr y ffracsiynau: $\frac{1}{2}$ , $\frac{1}{4}$ , $\frac{1}{3}$ ac $\frac{3}{4}$ . Mae angen eu bod yn deall bod $\frac{2}{4}$ yn gyfartal â $\frac{1}{2}$. Dylai plant fedru darganfod ffracsiynau o wrthrychau, siapiau a meintiau. Mae plant yn dechrau dysgu am ffracsiynau trwy edrych ar ffracsiynau o siapiau, ac yna symud ymlaen i ddarganfod ffracsiynau niferoedd/symiau, gan gysylltu hyn â'u dealltwriaeth o rannu. Yn y papur rhesymu, bydd angen i blant brofi eu dealltwriaeth o ffracsiynau. Efallai bydd angen iddynt dywyllu ffracsiwn o siâp neu i adnabod siâp, gyda ffracsiwn penodol wedi ei dywyllu. Gallai fod angen iddynt ddarganfod ffracsiynau o niferoedd neu ddatrys problem eiriol gan ddefnyddio ffracsiynau. Mae dealltwriaeth dda o dablau 2 a 3 yn angenrheidiol, yn ogystal â medru galw i gof ffeithiau dyblu a haneri niferoedd. Yn olaf, mae angen bod plant yn medru defnyddio'u gwybodaeth o gyfrifiadau i feysydd mathemategol eraill, h.y. arian a mesur.


# Ffracsiwn o Siapiau

Yn gyntaf, dewch i ni edrych ar ddarganfod ffracsiwn o siapiau.

Lliwiwch $\frac{1}{2}$ pob un o'r siapiau canlynol.










**Awgrym:** I ddarganfod hanner y siâp, dylech chi gyfrif i sawl rhan y mae'r siâp wedi ei rannu a lliwio hanner y rhif hwn.

Nawr lliwiwch $\frac{1}{4}$ y siapiau canlynol.








**Awgrym:** I ddarganfod chwarter y siâp, dylech chi gyfrif i sawl rhan y mae'r siâp wedi ei rannu, yna darganfyddwch beth yw hanner y rhif hwn cyn ei haneri eto a lliwio'r nifer hyn o rannau.


Lliwiwch $\frac{1}{3}$ y siapiau isod.



Eto, cyfrwch y nifer o rannau a'u rhannu gyda 3.

**Awgrym**: Bydd angen i chi wybod eich tabl 3 ar gyfer dasg yma!

Lliwiwch $\frac{3}{4}$ y siapiau isod.



Mae lliwio $\frac{3}{4}$ ychydig mwy heriol.

**Awgrym**: Darganfyddwch chwarter ac yna ei luosi gyda 3.

# Ffracsiwn o Symiau/Niferoedd

Mae'r un rheolau'n cael eu defnyddio wrth ddarganfod ffracsiynau o symiau/niferoedd. Mae angen i chi sicrhau eich bod yn medru galw i gof tablau 2 a 3 a'ch bod yn hyderus wrth rannu. Dewch i ymarfer. Defnyddiwch wrthrychau fel botymau, gleiniau neu darnau o basta os bydd hyn o gymorth.

| | **Darganfod $\frac{1}{2}$** |
|---|---|
| 2 | 1 |
| 4 | |
| 6 | |
| 8 | |
| 10 | |
| 12 | |
| 14 | |
| 16 | |
| 18 | |
| 20 | |



ewch i twinkl.cymru

Beth am geisio darganfod $\frac{1}{4}$.
Cofiwch, hanerwch, ac yna hanerwch eto.

| | **Darganfod $\frac{1}{2}$** | **Darganfod $\frac{1}{4}$** |
|---|---|---|
| 4 | 2 | 1 |
| 8 | | |
| 12 | | |
| 16 | | |
| 20 | | |
| 24 | | |
| 28 | | |
| 32 | | |
| 36 | | |
| 40 | | |

Nawr, ewch ati i ddarganfod $\frac{3}{4}$. Cofiwch, dewch o hyd i $\frac{1}{4}$ ac yna lluosi hwn gyda 3.

| | **Darganfod $\frac{1}{2}$** | **Darganfod $\frac{1}{4}$** | **Darganfod $\frac{3}{4}$** |
|---|---|---|---|
| 4 | 2 | 1 | 3 |
| 8 | | | |
| 12 | | | |
| 16 | | | |
| 20 | | | |
| 24 | | | |
| 28 | | | |
| 32 | | | |
| 36 | | | |
| 40 | | | |

Ac i orffen, darganfyddwch $\frac{1}{3}$.

| | **Darganfod $\frac{1}{3}$** |
|---|---|
| 3 | |
| 6 | |
| 9 | |
| 12 | |
| 15 | |
| 18 | |
| 21 | |
| 24 | |
| 27 | |
| 30 | |

# Problemau Geiriol Ffracsiynau

Dewch i ni gael cipolwg ar rai problemau geiriol ffracsiynau. Tanlinellwch y wybodaeth bwysig yn y broblem eiriol isod.

Mae Tal wedi casglu 20 cerdyn pêl-droed. Mae'n rhoi hanner y cardiau i'w ffrind Tom. Sawl cerdyn sydd gan Tal ar ôl?

**Mae'r wybodaeth bwysig yn dweud wrthym pa rifau rydym yn defnyddio a beth sydd angen i ni wneud gyda nhw.**

Mae Tal wedi casglu 20 cerdyn pêl-droed. Mae'n rhoi hanner y cardiau i'w ffrind Tom. Sawl cerdyn sydd gan Tal ar ôl?

Ar gyfer y broblem hon, rhaid i ni ddarganfod hanner 20. Dyma rai ffyrdd allwch chi ddatrys y broblem wedi i chi dderbyn y wybodaeth bwysig uchod.

- Yn gyntaf, gallwch ddatrys y broblem yn eich pen os ydych chi'n gwybod tabl 2 neu eich bod yn gallu haneru'n hyderus.
- Gallwch grwpio 20 smotyn i ddau grŵp a gweld sawl un sydd ym mhob grŵp.
- Gallwch ddarganfod 20 gwrthrych fel blociau neu gleiniau a'u rhannu i ddau grŵp cyn gweld sawl un sydd ym mhob grŵp.

Mae yna 24 o blant yn y Dosbarth Aur. Mae hanner ohonyn nhw'n ferched. Faint ohonyn nhw sy'n fechgyn?

Mae gan Moli pennau ysgrifennu. Mae'n rhoi hanner y pennau i Chloe. Mae gan Moli 6 ar ôl. Faint oedd ganddi i ddechrau?

Gwnaeth Jac arbed £12. Mae'n gwario $\frac{1}{4}$ o'i arian ar gar tegan newydd. Faint yw pris y car? Faint o arian sydd gan Jac ar ôl?

Mae'r rysáit i goginio cacen yn nodi bod angen 60ml o laeth. Mae angen i mi ychwanegu $\frac{1}{3}$ o'r llaeth i'r gymysgedd. Faint sydd angen i mi ychwanegu?

Mae gan Kim ddarn hir o ruban, sy'n 28cm o hyd. Mae'n torri $\frac{3}{4}$ oddi arni. Pa mor hir yw'r ddau ddarn o ruban sydd ganddi?

# Geometreg

## Priodweddau Siapiau 2D

Beth sydd angen i chi wybod: Mae siapiau 2D yn fflat, sy'n golygu bod ganddynt ochrau a chorneli ond dim wynebau. Ym mlwyddyn 2, mae angen i blant wybod enwau siapiau 2D cyffredin - cylch, sgwâr, petryal, triongl, pentagon, hecsagon ac octagon. Dylen nhw fedru trafod priodweddau'r siapiau hyn, h.y. sawl ochr a chornel sydd gyda nhw, ac a ydy'r ochrau o'r un hyd. Dylai plant fedru adnabod llinell fertigol cymesuredd mewn siâp 2D, adnabod siapiau 2D ar wynebau siapiau 3D a didoli siapiau yn ôl eu priodweddau.

## Priodweddau Siapiau 3D

Beth sydd angen i chi wybod: Mae gan siapiau 3D ddyfnder yn ogystal â lled ac uchder. Mae ganddynt wynebau (arwyneb), ymylon (lle mae dau wyneb yn cwrdd) a fertigau ('corneli', lle mae tri wyneb yn cwrdd). Ym mlwyddyn 2, mae angen i blant wybod enwau siapiau 3D cyffredin - sffêr, ciwb, ciwboid, silindr, côn, prism trionglog, prism sylfaen sgwâr a phrism sylfaen trionglog. Hefyd, mae angen iddynt fedru trafod priodweddau'r siapiau hyn, h.y. sawl wyneb, ymyl a fertig sydd ganddynt, a pha siapiau 2D sy'n creu'r wynebau. Mae angen iddynt fedru didoli siapiau 3D yn ôl eu priodweddau.

## Lleoliad a Chyfeiriad


Beth sydd angen i chi wybod: Erbyn diwedd blwyddyn 2, mae angen i blant fedru adnabod patrymau ailadroddadwy a dilyniannau sy'n cynnwys rhifau a siapiau. Yn ogystal â hyn, mae angen iddynt fedru disgrifio lleoliad, cyfeiriad a symudiad gwrthrych, gan gynnwys symudiad mewn llinell syth a gwahaniaethu rhwng troadau yn nhermau onglau sgwâr am chwarter tro, hanner tro a thri chwarter tro. (clocwedd a gwrthglocwedd).


ewch i twinkl.cymru


# Priodweddau Siapiau 2D

Dewch i ni adolygu enwau'r siapiau. Labelwch y siapiau.


**cylch　sgwâr　triongl　petryal　pentagon　hecsagon　octagon**




Enw ____________
Ochrau __________
Corneli __________




Enw ____________
Ochrau __________
Corneli __________




Enw ____________
Ochrau __________
Corneli __________




Enw ____________
Ochrau __________
Corneli __________



Enw ____________
Ochrau __________
Corneli __________



Enw ____________
Ochrau __________
Corneli __________




Enw ____________
Ochrau __________
Corneli __________

Nawr, ysgrifennwch sawl ochr a chornel sydd gan bob siâp.

Rhowch gynnig ar y cwestiynau ar y dudalen nesaf.



twinkl Quality Standard Approved

Tynnwch linell i gysylltu'r siapiau isod i'w henwau.




triongl

hecsagon



octagon



pentagon



ewch i twinkl.cymru

Ysgrifennwch enwau’r siapiau yn y lle cywir ar y diagram Carroll.

**sgwâr** **hecsagon** **petryal** **cylch**

| 4 Ochr neu Lai | Mwy Na 4 Ochr |
| --- | --- |
| | |

Pa **ddau** o’r brawddegau isod sy'n gywir? Ticiwch **ddau**.

Mae gan sgwâr bedwar ochr. ☐

Mae sgwâr yn gymesurol. ☐

Dydy ochrau sgwâr ddim yr un hyd. ☐

Mae gan sgwâr un ochr crwm. ☐




ewch i twinkl.cymru

# Priodweddau Siapiau 3D

Dewch i adolygu enwau siapiau 3D. Labelwch y siapiau.

**sffêr ciwb ciwboid silindr côn prism trionglog**

**pyramid sylfaen sgwâr pyramid sylfaen triongl**




Enw ____________

Wynebau ________

Ymylon __________

Fertigau _________




Enw ____________

Wynebau ________

Ymylon __________

Fertigau _________




Enw ____________

Wynebau ________

Ymylon __________

Fertigau _________




Enw ____________

Wynebau ________

Ymylon __________

Fertigau _________




Enw ____________

Wynebau ________

Ymylon __________

Fertigau _________




Enw ____________

Wynebau ________

Ymylon __________

Fertigau _________




Enw ____________

Wynebau ________

Ymylon __________

Fertigau _________



Enw ____________

Wynebau ________


Ymylon __________

Fertigau _________

Nawr, ysgrifennwch sawl wyneb, ymyl a fertig sydd gan bob siâp.

**Problemau Siâp**

Mae Adam yn peintio drwy brintio gyda siâp 3D. Prism trionglog yw'r siâp. Pa siapiau 2D gall Adam greu?




Dywedodd Madog, 'Does dim fertigau gan gôn.' Ydyw e'n gywir? Esboniwch eich ateb.

Mae Popi'n dal siâp 3D. Dywedodd, 'Mae pum wyneb gan fy siâp. Mae pedwar ohonynt yr un siâp ac mae un yn wahanol.' Pa siâp sydd gan Popi?


ewch i twinkl.cymru

Ysgrifennwch enwau’r siapiau yn y lle cywir ar y diagram Venn.

**sffêr ciwb côn silindr pyramid**



**Wynebau Crwm i Gyd** **Wynebau Gwastad i Gyd**

Pa frawddegau sy’n gywir? Ticiwch **ddau**.

Mae gan giwb wyth fertig. ☐

Mae gan giwb ymylon hafal. ☐

Mae gan giwb wyneb petryal. ☐


Mae gan giwb ymyl crwm. ☐



ewch i twinkl.cymru

# Lleoliad a Chyfeiriad

I ddechrau, dewch i ni adolygu symud a throi. Edrychwch ar y saeth:





Tynnwch lun i ddangos sut fyddai'r saeth yn edrych petai'n troi i'r chwith.

Nawr, tynnwch lun i ddangos sut fyddai'n edrych petai'n troi i'r dde.


Mae dychmygu bysedd cloc yn ffordd arall o edrych ar symudiad a chyfeiriad. ‘Clocwedd’ yw’r enw a ddefnyddir am droi i’r dde oherwydd dyma gyfeiriad symudiad bysedd cloc. ‘Gwrthglocwedd’ yw’r enw a ddefnyddir am droi i’r chwith oherwydd bod hyn yn mynd gyferbyn â’r cyfeiriad y mae bysedd cloc yn symud.

**gwrthglocwedd**




**clocwedd**

Wrth ddychmygu bysedd cloc, rydym hefyd yn trafod troi fesul chwarter, hanner a thri chwarter tro. Dychmygwch fod y cloc wedi ei rannu’n bedwar.




**chwarter tro clocwedd**




**hanner tro clocwedd**




ewch i twinkl.cymru




**tri chwarter tro clocwedd**




**tro cyfan clocwedd**




**chwarter tro gwrthglocwedd**



**hanner tro gwrthglocwedd**




**tri chwarter tro gwrthglocwedd**




**tro cyfan gwrthglocwedd**


Lluniwch saethau i ddangos y symudiadau hyn. Mae’r saeth llwyd yn dangos lle i ddechrau. Mae'r un cyntaf wedi ei wneud i chi.




**chwarter tro clocwedd**




**tri chwarter tro clocwedd**




**hanner tro gwrthglocwedd**



**chwarter tro clocwedd**



**tri chwarter tro gwrthglocwedd**



**chwarter tro clocwedd**



ewch i twinkl.cymru

# Patrymau a Dilyniannau

Pan fydd cwestiwn yn gofyn i chi gwblhau patrwm, mae angen i chi edrych ar y wybodaeth sydd gennych yn gyntaf. Allwch chi lenwi'r rhifau coll yn y dilyniant isod?

**3, 6, 9, ___, ___, ___, ___, 24**

Gallwn weld yn syth bod y dilyniant yn cynyddu fesul 3, felly rhaid i ni ddilyn y patrwm. Mae'r rhif olaf yn ein helpu i wirio ein bod yn gywir.

**3, 6, 9, 12, 15, 18, 21, 24**


Weithiau, bydd y dilyniant yn mynd am nôl.

**___, ___, ___, 60, 50, 40, ___, ___**


Gallwn weld bod y dilyniant yn cyfri nôl mewn 10au.

**90, 80, 70, 60, 50, 40, 30, 20**

A phan fyddwn yn edrych ar batrymau sy'n defnyddio siapiau, mae'n rhaid i ni edrych eto ar y wybodaeth sydd gennym.



Er nad yw'r patrwm yn ailadrodd yma, rydyn nhw'n gwybod digon er mwyn medru parhau.



Weithiau, gall cwestiwn ofyn i chi ddarganfod 'term' mewn dilyniant. Beth mae hyn yn ei olygu yw rhan o'r dilyniant. Felly ar gyfer y dilyniant uchod, mae'r term 1af yn driongl, byddai'r 6ed term yn gylch ac yn y blaen.





ewch i twinkl.cymru

Cwblhewch y dilyniannau.

**___, ___, 25, 30, 35, ___, ___, ___**

**1, 3, 5, ___, ___, ___, ___, 15**






Edrychwch ar y dilyniant yma. Beth fyddai'r 10fed term?

**2, 4, 6, 8, 10, 12**


Edrychwch ar y dilyniant yma. Beth fyddai'r 8fed term?

**3, 6, 9, 12**

Edrychwch ar y dilyniant yma. Beth fyddai'r 9fed term?



Edrychwch ar y dilyniant yma. Beth fyddai'r 12fed term?





ewch i twinkl.cymru

Llenwch y blychau gwag yn y dilyniannau isod.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2 | | | | |
| | 4 | | | | |
| | | | 12 | 15 | 18 |
| | | | | | |
| | 10 | | | | |
| | 12 | | | | |
| | 14 | | | | |
| | 16 | | | | |

Llenwch y blychau gwag yn y dilyniannau isod.


| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | X | | | | |
| | | | O | | | | |
| ! | X | @ | | | X | @ | X |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | O | | | | |

# Ystadegau

Beth sydd angen i chi wybod: Erbyn diwedd blwyddyn 2, mae angen bod plant yn medru adeiladu pictogramau syml, siartiau rhifo (tali), diagramau bloc a thablau ac yn medru dadansoddi'r data maent yn cynnwys. Rhaid iddynt fedru ateb cwestiynau syml drwy gyfri'r nifer o wrthrychau sydd ym mhob categori a didoli'r categorïau fesul nifer, hefyd. Er enghraifft, efallai bydd cwestiwn yn gofyn pa gategori sydd â'r nifer fwyaf neu i nodi pa grŵp o wrthrychau sy'n cynrychioli'r wybodaeth sydd i'w gweld ar y siart rhifo (tali). Ac yn olaf, mae angen iddynt fedru gofyn ac ateb cwestiynau am greu cyfansymiau a chymharu data pendant, sy'n golygu gall cwestiwn ofyn faint yn fwy sydd mewn un categori na chategori arall, neu i ddweud sawl gwrthrych sy'n cael ei ddangos yn gyfan gwbl. Mae darllen cwestiynau, siartiau a thablau'n gywir yn bwysig, yn ogystal â sgiliau cyfrifo da.

# Siartiau Rhifo (Tali)

Mae gan Lili becyn o losin lliwgar. Mae'n gwagio'r pecyn ac yn edrych ar faint o bob lliw sydd yna. Dyma'r losin:



Mae Lili'n penderfynu cyfri'r lliwiau a chofnodi'r gwybodaeth hyn mewn siart tali. Allwch chi gwblhau'r siart iddi?

| Lliw | Rhifo/Tali | Nifer |
|---|---|---|
| coch | 111 | 3 |
| | ~~1111~~ 111 | |
| pinc | | |
| oren | 1 | |
| | | |
| gwyrdd | | 5 |




ewch i twinkl.cymru

# Pictogramau

Nesaf, mae Lili'n penderfynu creu pictogram. Mae hi wedi dechrau arni.

Allwch chi ei orffen?






ewch i twinkl.cymru

# Graff Bloc

Yn olaf, mae Lili'n creu graff bloc.




Pa liw sydd fwyaf poblogaidd?

Pa ddau liw sydd â nifer cyfartal o losin?

Sawl losinen sydd yna'n gyfan gwbl?

Faint yn fwy o losin porffor na losin glas sydd yno?

Mae Lili'n bwyta 3 losinen borffor, 2 losinen werdd 2 losinen goch.

Sut fydd y siart rhifo (tali) yn edrych nawr?

| Lliw | Rhifo/Tali | Nifer |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |



ewch i twinkl.cymru

# Mesur

Beth sydd angen i chi wybod: Erbyn diwedd blwyddyn 2, bydd plant wedi dysgu am fesuriadau hyd, pwysau, cynhwysedd, amser a thymheredd. Mae angen iddynt wybod pa unedau mesur sy'n cael eu defnyddio am bob un o'r rhain a sut i ddarllen graddfa ar bren mesur, jwg, clorian ac ati. Rhaid iddynt fedru cymharu gwahanol fesuriadau a gallu cwblhau cyfrifiadau syml hefyd. Wrth ddysgu am amser, bydd eisiau i blant ddarllen amserau i'r 5 munud agosaf ar gloc analog a dweud sawl eiliad sydd mewn munud, sawl munud mewn awr a sawl awr mewn diwrnod. Bydd llawer o waith ymarferol yn digwydd yn yr ysgol gan mai dyma'r ffordd orau i ddysgu'r sgiliau hyn. Gall hyn helpu adref hefyd. I ddatblygu sgiliau mesur, gallwch geisio ar weithgareddau ymarferol adref fel gwneud rhywbeth allan o friciau neu bapur, coginio cacen neu arsylwi newidiadau mewn tymheredd.

# Unedau Mesur




Dewch i ni adolygu'r unedau rydym yn eu defnyddio wrth fesur. Tynnwch linell i gysylltu'r unedau mesur i'r mesurau cywir. Mae'r cyntaf wedi ei wneud i chi.

| | |
|---|---|
| milimetrau, centimetrau, metrau | cynhwysedd |
| gramau, kilogramau | pwysau |
| eiliadau, munudau, oriau | tymheredd |
| mililitrau, litrau | amser |
| graddau Celsius | hyd |

Er mwyn arbed amser, gallwn nodi'r unedau mesur mewn modd byrrach. Allwch chi gwblhau'r tabl?

| | |
|---|---|
| metrau | |
| mililitrau | |
| | cm |
| kilogramau | |
| | °C |
| gramau | |
| | mm |
| | l |

Mae'n bwysig ddefnyddio'r uned gywir wrth fesur. Pa uned byddech chi'n defnyddio i fesur y canlynol?


| | | |
|---|---|---|
| Y dŵr mewn pwll nofio |  | |
| Pensil |  | |
| Tymheredd eich dosbarth |  | |
| Yr hylif mewn cwpan o de |  | |
| Y pellter o'ch cartref i Awstralia |  | |




ewch i twinkl.cymru


# Mesur Hyd

Defnyddiwch bren mesur centimetrau i fesur y gwrthrychau canlynol.
Cofiwch bod angen i chi fesur o bwynt 'sero' (nid pen y pren mesur).
Peidiwch anghofio nodi 'cm' wrth gofnodi eich ateb, e.e. '5cm'.



















# Mesur Cynhwysedd

Mae'r gallu i ddarllen graddfeydd yn bwysig pan fyddwch chi'n mesur. Mae gan jygiau mesur raddfa arnynt ond ni fyddant yn dangos pob milimetr. Rhowch gynnig ar ddarllen y graddfeydd ar y jygiau isod. Peidiwch anghofio ysgrifennu eich atebion mewn mililitrau (ml).









Tynnwch gylch o amgylch y jwg sy'n dal y mwyaf o ddŵr.


Rhowch groes wrth ymyl y jwg sydd â'r lleiaf o ddŵr.


# Mesur Pwysau

Mae'r gallu i ddarllen graddfa yn bwysig wrth fesur. Bydd gan gloriannau raddfa gyda rhifau arnynt ond ni fydd y raddfa'n dangos pob rhif. Ceisiwch ddarllen y pwysau ar y cloriannau isod. Cofiwch ysgrifennu eich atebion mewn gramau (g).









Tynnwch gylch o amgylch y glorian gyda'r pwysau trymaf.


Rhowch groes wrth ymyl y glorian gyda'r pwysau ysgafnaf.


# Mesur Tymheredd

Mae'r gallu i ddarllen graddfa yn bwysig wrth fesur. Bydd graddfa wedi rhifo ar thermomedrau ond ni fyddant yn dangos pob gradd. Ceisiwch ddarllen y tymheredd sydd wedi ei ddangos ar y thermomedrau isod. Cofiwch ysgrifennu eich ateb mewn graddau Celsius (°C).




Tynnwch gylch o amgylch y thermomedr gyda'r tymheredd oeraf.


Rhowch groes wrth ymyl y thermomedr gyda'r tymheredd poethaf.



twinkl Quality Standard Approved

# Amser

Edrychwch yn ofalus ar y cloc. Dylai eich helpu i gofio sut i ddefnyddio cloc analog i ddweud yr amser.


















ewch i twinkl.cymru

**Faint o'r Gloch yw Hi? - Amserau Wedi ac I**

Defnyddiwch y cloc i'ch helpu i lunio bysedd ar bob cloc er mwyn dangos yr amser cywir.

| | | |
|---|---|---|
|  |  |  |
| **chwarter wedi 9** | **10 munud wedi 10** | **25 munud i 8** |
|  |  |  |
| **20 munud i 1** | **25 munud i 7** | **5 munud wedi 2** |
|  |  |  |
| **25 munud wedi 3** | **10 munud i 12** | **chwarter i 4** |
|  |  |  |
| **5 munud i 11** | **hanner awr wedi 5** | **20 munud wedi 6** |

**Her:** Dewiswch bedwar o'r amserau uchod. Beth allech chi fod yn gwneud yn ystod yr amserau yma?

# Llenwch y Jar!

Dewiswch wobr yr hoffech chi gael ac ysgrifennwch enw'r wobr ar label y jar. Gallwch liwio'r botymau bob tro rydych chi'n cyflawni gwaith gwych, a phan fyddwch chi wedi lliwio'r holl fotymau gallwch gael eich gwobr. Os oes gennych fwy o waith i'w wneud, gallwch argraffu siart arall a dechrau eto - efallai gyda gwobr newydd!

Cwblhau taflen - lliwio 1 botwm

Gwneud rhywbeth gwych (eich helpwr i ddewis) - lliwio 1 botwm

